Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd


## Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2020/21

Mae'r Bwrdd wedi ystyried Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2020/21 yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2020. Ystyriodd y Bwrdd ddeunyddiau ategol perthnasol, gan gynnwys adroddiad gan Jacobs a oedd wedi bod yn rhan o'r gwaith o roi sicrwydd allanol, a holodd y Tîm Gweithredol yn briodol hefyd, yn benodol y Prif Swyddog Ariannol.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol, gall y Bwrdd gadarnhau, hyd y gwyddwn, fod y taliadau yn Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr Dŵr Cymru yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol amrywiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i haddaswyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, gyda'i gilydd.

Gallwn gadarnhau i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y mae'r ddogfen yn seiliedig arni yn gywir o fewn lefelau rhesymol o oddefiant. Mae'r ddogfen a'r wybodaeth ofynnol ychwanegol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheoli mewnol ac, yn unol â hynny, maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

Nid oes unrhyw reolau codi tâl newydd ar gyfer gwasanaethau cysylltu newydd i ymgymerwyr y mae eu hardaloedd wedi'u lleoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac, felly, mae'r taliadau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2020/21 wedi'u datblygu yn unol â blynyddoedd blaenorol. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw newid perthnasol i gydbwysedd y taliadau rhwng datblygwyr a chwsmeriaid eraill.



**Alastair Lyons**

**Cadeirydd**

Ar ran y Bwrdd
5 Mawrth 2020